

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	25 Mawrth 2025
Swyddog / Aelod Arweiniol	Y Cyngorydd Elen Heaton / Ann Lloyd
Pennaeth Gwasanaeth	Ann Lloyd
Awdur yr adroddiad	Ann Lloyd
Teitl	Pennu Ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio 2025/26

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau am ffioedd gofal gyda Darparwyr Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio i Bobl Hŷn (ac eithrio cartrefi Arbenigol i bobl ag anableddau cymhleth neu salwch iechyd meddwl)

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybod i'r Cabinet am ganlyniad yr ymgynghoriad â Darparwyr Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio i Bobl Hŷn a sut rydym yn bwriadu ymdrin ag unrhyw anghydfod am ffioedd gofal yn y dyfodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnydd mewn Ffioedd Gofal, ar ben ffioedd 2024/2025 ar gyfer Cartrefi Preswyl a Nyrsio i Bobl Hŷn yn 2025/2026 sef:

3.1.1. 3.8% ar gyfer Gofal Preswyl Safonol

3.1.2. 6.6% ar gyfer Gofal Preswyl i Henoed Bregus eu Meddwl (EMI)

3.1.3. 5.9% ar gyfer Gofal Nyrsio Safonol

3.1.4. 7.2% ar gyfer Gofal Nyrsio i Henoed Bregus eu Meddwl (EMI)

3.2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo y bydd unrhyw ddarparwr nad yw'n derbyn y ffioedd arfaethedig yn cymryd rhan mewn ymarfer Care Cubed i bennu pris teg am eu gofal (ymarfer llyfr agored yn flaenorol).

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Ar ddechrau 2024 / 2025, comisiynodd Cyngor Sir Ddinbych 382 o leoliadau mewn 85 o Gartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio i Bobl Hŷn. Ar draws y 4 categori gofal: - Preswyl Safonol; Preswyl EMI; Nyrsio Safonol; a Nyrsio EMI, mae'r gost a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn debygol o fod yn £14,122,881, o gyfanswm o wariant o £43.1 miliwn ar yr holl becynnau gofal mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion.
- 4.2. Ymrwymodd y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol (cyn is-grŵp y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol) i gyflawni dull rhanbarthol cyson a thryloyw. Yn hydref 2024, buddsoddodd Cyngor Sir Ddinbych mewn methodoleg Care Cubed, ynghyd â nifer o Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru.
- 4.3. Mae Care Cubed yn safoni ac yn symleiddio'r gwaith o drafod a brocera costau pecynnau gofal. Mae'r pecyn gwaith strategol yn sicrhau cysondeb a thryloywder yn ein rhyngweithio â'r holl ddarparwyr gofal ac yn ein cefnogi i gyflawni pris teg am ofal. Mae Care Cubed yn cefnogi ein nod o wella ansawdd gofal wrth sicrhau cyllid teg a chyfiawn a gweithio tuag at farchnad gofal cymdeithasol gynaliadwy.
- 4.4. Byddwn yn defnyddio Care Cubed ar gyfer unrhyw becyn gofal newydd pan fydd y darparwr yn gofyn am ffioedd sy'n uwch na'r gyfradd y cytunwyd arni ar gyfer 2025 / 2026. A hefyd ar gyfer unrhyw ddarparwr sy'n gofyn am gael trafod cyfraddau ffioedd gofal 2025 / 2026 ymhellach (a elwid yn flaenorol yn ymarfer llyfr agored).
- 4.5. Gwnaed gwaith cyn-ymgyngori cyn pennu ein cynigion am ffioedd gofal ac roedd y prif adborth yn ymwneud â bodloni costau'r cynnydd mewn Cyfraniad Yswiriant Gwladol Cyflogwyr a gostwng y trothwy Yswiriant Gwladol. Mae hyn wedi cael ei ystyried wrth ddatblygu ein cynnig ffioedd gofal.
- 4.6. Anfonwyd llythyr (Atodiad 1) at holl ddarparwyr cartrefi gofal pobl hŷn ar 10 Ionawr 2025 gyda'n cynigion a dechrau'r broses ymgynghori. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r holl ddarparwyr gyfarfod â swyddogion a chwblhau'r ymarfer Care Cubed. Dim ond tri darparwr cartrefi gofal pobl hŷn (4 cartref) sydd wedi

ysgrifennu atom yn dweud wrthym beth fydd eu ffioedd a bydd swyddogion yn ymgysylltu â nhw i gwblhau Care Cubed.

4.7. Wrth bennu ffioedd gofal 2025 – 2026, gweithiwyd gyda'r Pecyn Gwaith Methodoleg Rhanbarthol ond gan feincnodi'r ffioedd arfaethedig yn Care Cubed a chadarnhaodd y canlyniadau ein ffi arfaethedig am gartref gofal nodweddiadol. Rydym hefyd wedi ystyried yr adborth a gawsom gan ddarparwyr ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2024 ynghyd â'r:

- cynnydd o 5% yn y Cyflog Byw Gwirioneddol, o £12.00 i £12.60 ym mis Ebrill 2025
- y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 1.5% a lleihau'r trothwy YG
- cyfradd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 2% (fel rheol rydym ni'n defnyddio cyfradd chwyddiant mis Medi, a oedd yn 1.7%)

4.8. Tabl o Ffioedd Gofal ar draws y 4 categori gofal

	24 / 25	25 / 26	Cynnydd Wythnosol	
Gofal Preswyl Safonol	£774.47	£804.64	£30.17	3.90%
EMI Preswyl	£808.58	£862.71	£54.13	6.70%
Gofal Nyrsio Safonol*	£851.81	£909.94	£58.13	6.80%
Gofal Nyrsio EMI*	£920.05	£987.19	£67.14	7.30%

*Ac eithrio gofal nyrsio wedi'i ariannu gan BIPBC

Bydd cynnydd ariannol cyfatebol yn cael ei gynnig i unrhyw ddarparwr sydd eisoes yn cael ei dalu mwy na'r gyfradd ddangosol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r penderfyniadau ynglŷn â ffioedd cartrefi preswyl a nyrsio'n cyfrannu at themâu canlynol y Cynllun Corfforaethol:

5.1.1. Sir Ddinbych ffyniannus - Telir ffioedd Cartrefi Gofal i ddarparwyr unigol yn y sector preifat a'r trydydd sector, ac felly maent yn cefnogi twf yr economi gymdeithasol leol ac yn darparu swyddi lleol.

5.1.2. Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad - Caiff lefelau ffioedd eu llywio a'u pennu yn dilyn ymgysylltiad â darparwyr, ac mae hynny'n meithrin diwylliant sy'n croesawu her briodol a theg. Mae'r broses o bennu ffioedd yn sicrhau prisiau teg a chyfiawn am becynnau gofal ac yn y bôn, yn cefnogi cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol i warchod arian cyhoeddus a sicrhau'r gwerth gorau i'r trethdalwr. Wedi'i ymgorffori yn niwylliant y sefydliad mae ein cyfrifoldeb ariannol i sicrhau bod pob pecyn gofal yn gynaliadwy, wedi'i brisio'n deg ac yn dangos gwerth am arian.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Os yw'r Cabinet yn cytuno â'r Ffioedd Gofal Cartrefi Preswyl a Nyrsio, mae'n debygol o gostio £944,085 yn ychwanegol i ni yn ystod 2025 – 26, sy'n dod a chyfanswm costau Gofal Preswyl a Nyrsio i Bobl Hŷn yn £15.2 miliwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Estynnwyd gwahoddiad i bob Darparwr gymryd rhan mewn ymarfer cyn ymgynghori. Dim ond 6 darparwr dderbyniodd y gwahoddiad a dim ond 2 ddarparwr sydd wedi ysgrifennu atom yn ystod y cyfnod ymgynghori.

8.2. Mae Cyfarfod Briffio'r Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi bod yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â phennu ffioedd yn rheolaidd.

8.3. Gofynnwyd am farn cydweithwyr cyllid drwy gydol y broses o bennu ffioedd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r dull o bennu ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio yn 2025/26 yn adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd yn 2024/25, sydd wedi llwyddo i gydbwysu'r angen i gefnogi'r farchnad darparwyr ar draws y sir a'r costau blynyddol cynyddol sy'n wynebu cartrefi gofal â fforddiadwyedd i'r Cyngor a threthdalwyr y Cyngor. Mae'r dull ar gyfer 2025/26 fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad wedi cael ei ystyried yn ofalus a bydd yn dilyn egwyddorion y pecyn gwaith rhanbarthol, gan godi ffioedd dangosol fesul canran a symiau ariannol os ydynt yn uwch na'r ffioedd dangosol fel yr amlinellir. Y newid eleni yw y bydd unrhyw ffi gofal nad yw'n cael ei derbyn yn defnyddio'r fethodoleg Care Cubed fel ffordd dryloyw o ddatrys yr anghydfod ac fe'i cefnogir.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Gyda'r ychydig o adborth a gafwyd gan Ddarparwyr yn ystod yr ymarfer cyn ymgynghori a'r cyfnod ymgynghori, mae'n anodd mesur safbwyntiau'r rhwydwaith ehangach o ddarparwyr cartrefi gofal. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n darparwyr a bydd y cyfle i drafod ffioedd gofal a chymryd rhan yn Care Cubed yn wahoddiad sefydlog i'n holl ddarparwyr.

10.2. Ein bod yn gwneud cynnig nad yw'n gynaliadwy'n ariannol i'r Cyngor yn seiliedig ar y sefyllfa ariannol bresennol a'r heriau a ragwelwn yn y gyllideb dros y 2 – 3 blynedd nesaf. I liniaru hyn, rydym wedi buddsoddi yn y fethodoleg Care Cubed sy'n cefnogi rôl y Cyngor fel stiward arian cyhoeddus a bod yn atebol i sicrhau bod y ffioedd rydym yn eu talu am ofal yn gynaliadwy ac yn bodloni anghenion y defnyddiwr gwasanaeth.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Nodir pwerau'r Cabinet mewn perthynas â'r mater hwn yn y canlynol:

- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Adran 7.4.2 (b) cyfansoddiad y Cyngor
- Adran 114 b Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014